

BETH YDI'CH PERTHYNAS CHI GYDA DUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Anogwch bob un i fyfyrto ar ei berthynas bersonol â Duw. Pwysleiswch yr hyn mae Duw yn ei ofyn os yw unigolyn i dderbyn cymeradwyaeth ddwyfol a sut y dylai unigolyn weithredu i dderbyn cefnogaeth Duw

MAE PERTHYNAS DDA GYDA DUW YN BWYSIG (5 mun.)

Casgliad haneswyr ac anthropolegwyr ydi fod ysfa addoli mewn bodau dynol (*sh* 19; *g89* 3/22 6)

Fe ddywedodd Iesu: "Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd" (yn ymwybodol o'u tlodi ysbrydol) (Mth 5:3)

Fel mae angen bwyd iachusol arnom er mwyn iechyd corfforol, felly mae angen perthynas dda gyda Duw arnom er mwyn iechyd ysbrydol (*sh* 28)

Nid bob amser mae pethau'n mynd yn dda, felly mae angen help dwyfol arnom ni

Gall wynebu salwch, caledi, ofyn am fwy na nerth dynol

Yn gyffredinol, mae'r ddynoliaeth wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw (Eff 2:1, 2)

Eto, fe rodiodd Enoch a Noa gyda Duw; 'roedd Abraham yn annwyl ganddo; 'roedd gan Ddadydd berthynas dda gyda Duw (Gen 5:22; 6:9; Eiseia 41:8; Salm 23:1)

Sut mae eich perthynas chi gyda Duw? 'Oes 'na le i wella?

Beth ydi budd a lles perthynas dda gyda Duw?

SUT 'RYDYM NI'N ELWA O BERTHYNAS DDA GYDA DUW (8 mun.)

Mae Duw yn ateb gweddiau'r rhai sy' o ddifri' yn ei geisio (Heb 11:6)

Dywedodd Tyst oedd yn genhadwr yn Affrica: "Daw fy hapusrwydd mwyaf bob gyda'r nos pan yw fy meddwl yn dal yn effro, a thra 'rwyf ar fy mhen fy hun yn medru treulio peth amser dan y nefoedd serog yn cerdded a siarad gyda Jehofah. Mae hyn wedi dod â fi'n nes at Jehofah." (*w73* 174)

Mae perthynas dda yn gwella ansawdd ein bywyd (Crybwyllwch brofiadau go iawn, fel y rhai yn *w90* 5/15 21)

Mae perthynas dda gyda Duw yn ein hamddiffyn ni, oherwydd fod arnom ofn ei ddiogio (Salm 97:10)

Bydd y sawl sy'n cael ei demtio i buteinio yn sylweddoli y bydd ildio yn dod â gwarth a thristwch arno'i hun a'i anwyliad ac yn dwyn anfri ar y gynulleidfa Gristionogol (Diar 7:1-27)

Mae perthynas dda gyda Jehofah yn ein cynnal ni (Salm 121:1, 2)

Yn atal unigolyn rhag cael ei barlysu gan ofn dyn; yn rhoi hyder yng nghefnogaeth Duw beth bynnag fo'r canlyniad (*w89* 6/1 6)

Sut mae ennill perthynas dda o'r fath gyda Duw?

ENNILL PERTHYNAS DDA GYDA DUW (7 mun.)

Rhaid datblygu ofn priodol o flaen Jehofah (Diar 9:10; *it-1* 818)

Yna dilynwch y camau allweddol hyn i sicrhau perthynas dda gyda Duw:

- (1) Cymerwch i mewn wybodaeth gywir ac ufuddhau iddi (In 17:3)
- (2) Credwch a rhoi eich ffydd yn Nuw, Crist, a'r priddwerth (In 3:16)
- (3) Edifeirwch—tristwch o'r galon oherwydd drygioni'r gorffennol (Lc 5:32)
- (4) Tröedigaeth—troi, gan ddilyn cwrs duwiol (Act 3:19)
- (5) Cysegru'ch bywyd i Dduw, a mynegi hynny mewn gweddi (Mc 8:34)
- (6) Bedydd i symboleiddio'ch ymgysgriad i Jehofah (Mth 28:19)

Heb ddilyn y camau hyn, nid yw'r llwyr berthynas gyda Duw sy'n arwain at iachawdwriaeth yn bod eto (*w89* 1/15 15-16)

MAE ANGEN YMDDYGIAD DA I GYNNAL PERTHYNAS GYDA DUW (12 mun.)

Parhewch i astudio'r Beibl, mynychu cyfarfodydd (In 6:63; Salm 26:12)

Dibynnwch yn daer ar Dduw, gweddiau penodol (Phil 4:6, 7)

Derbyniwch gyfarwyddyd Duw trwy ei Air, ei ragluniaeth, ei ysbryd, ei angylion, ei gyfundrefn weladwy (Diar 3:5, 6; 16:9; Dat 14:6)

Ymddiriedwch yn Nuw, gan ymateb i'w gariad a'i briodoleddau eraill (Salm 107:8)

Derbyniwch ddisgyblaeth Duw yn ostyngedig (Heb 12:4-11)

Efallai fod Jehofah yn ein coethi ni ar gyfer ein defnyddio yn ddiweddarach, fel yn achos Moses

Byddwch yn faddeugar, neu ni fydd Duw yn maddau i ni (Mth 6:14, 15)

Gwrthwynebwch y duedd i ddal dig (1Cor 13:4, 5)

Carwch y brodyr (1In 4:20, 21)

Ceisiwch fodloni Duw hyd yn oed yn y pethau bach (Lc 16:10)
Cadwch eich uniondeb i Jehofah (Salm 26:1)

MAE PERTHYNAS DDA YN GOFYN EIN BOD NI'N GYD-WEITHWYR DUW (10 mun.)

Dangoswch ddiddordeb ym mhrif ofal Duw—datrys pwnc dadl awdurdod brenhinol

'Dyw bywyd moesol a dangos cariad at gymydog mewn ffordd ddaearol ddim yn ddigon

Rhaid tystiolaethu am enw Jehofah a'i fwriadau (Eseia 43:10)

Cydweithredwch â'r gwas ffyddlon a chall sy'n cyfarwyddo'r gwaith pregethu'r Deyrnas (Mth 24:14, 45-47)

Gwnewch y gwaith hwn yn frwdfrydig; peidiwch â'ch arbed eich hun (Lc 13:24)

Os nad ydych eto wedi'ch bedyddio ond am gael rhan yn y gwaith llawen hwn, siaradwch â henuriaid y gynulleidfa

Po fwyaf brwdfrydig yr ydym yn y gwasanaeth cysegredig, gorau oll fydd ein perthynas â Duw a mwyaf fydd ein llawenydd (Tit 2:13, 14)

Daw bodlonrwydd mawr wrth weithio gyda Duw (1Cor 3:6-9)

Beth arall sydd ei angen?

PARHEWCH I WEITHIO ER MWYN GWELLA'CH PERTHYNAS GYDA DUW (3 mun.)

Gweithiwch yn galed i ddyfnhau eich perthynas gyda Duw

Mynnwch ddod i 'nabod Duw yn well drwy astudio dyfal, cyfarfodydd

Peidiwch byth â chymryd budd a lles perthynas dda gyda Duw yn ganiataol

Sicrhewch gyfathrebu da, peidio byth â bod yn rhy brysur i weddio

Cydweithredwch â'r 'gwas ffyddlon' er mwyn cael perthynas dda gyda Duw

Cadwch yn brysur yn y gwasanaeth cysegredig, yn selog yn pregethu neges y Deyrnas

Heuwch yn hael a byddwch yn medi'n hael (2Cor 9:6)

Gyda dulliau felly, profwch a gwelwch mor dda yn wir yw Duw! (Salm 34:8)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)